


Briff Ymchwil

# Y Llywydd a’r Dirprwy Lywydd – Hysbysiad hwylus ar Gyfansoddiad

**Awdur:** Alys Thomas

**Dyddiad:** Chwefror 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Alys Thomas**
Dyddiad: **Chwefror 2018**
Rhif Papur: **18-013**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6305**
: **Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd – Hysbysiad hwylus ar Gyfansoddiad

Hysbysiad hwylus yn trafod rôl a swyddogaethau Llywydd a Dirprwy Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd

## Rôl y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd

Cafodd swydd y Llywydd a swydd y Dirprwy Lywydd eu creu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl etholiad, mae'r Cynulliad yn ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd. Prif rôl y Llywydd yw cadeirio'r Cyfarfod Llawn, gan gadw trefn ac amddiffyn hawliau Aelodau'r Cynulliad. Y Llywydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod busnes yn cael ei drafod ar sail gydradd a diduedd. Mae'n gyfrifol am y Rheolau Sefydlog, ac ef neu hi yw'r awdurdod terfynol ar eu dehongli. Mae'r Llywydd hefyd yn chwarae rôl weithredol o ran cynrychioli buddiannau'r Cynulliad a buddiannau Cymru ar y llwyfan cenedlaethol, ar lwyfan y DU ac ar y llwyfan rhyngwladol.

Mae'r Dirprwy Lywydd yn dirprwyo ar ran y Llywydd yn ôl yr angen. Gall swyddogaethau'r Llywydd gael eu harfer gan y Dirprwy Lywydd os yw swydd y Llywydd yn wag, neu os nad yw'r Llywydd am unrhyw reswm yn gallu gweithredu ac mae'r Llywydd, yn amodol ar y **Rheolau Sefydlog**, yn cael awdurdodi'r Dirprwy Lywydd i arfer swyddogaethau'r Llywydd.

**Cafodd Elin Jones AC** (Plaid Cymru) ei hethol fel y Llywydd ar gyfer y Pumed Cynulliad, gydag **Ann Jones AC** (Llafur Cymru) yn cael ei hethol fel y Dirprwy Lywydd.

Y Fonesig Rosemary Butler AC oedd y Llywydd yn y Pedwerydd Cynulliad a David Melding AC oedd y Dirprwy Lywydd. Y Gwir Anrhydeddus Dafydd Elis Thomas AC oedd y Llywydd yn nhri thymor cyntaf y Cynulliad.

Cafwyd tri Dirprwy Lywydd yn ystod y Cynulliad Cyntaf, yr Ail a'r Trydydd. Jane Davidson AC oedd deiliad y swydd rhwng mis Mai 1999 a mis Hydref 2000. Cafodd ei holynu gan Dr John Marek AC, a fu'n gwasanaethu tan ddiwedd yr Ail Gynulliad. Rosemary Butler fu deiliad y swydd yn ystod y Trydydd Cynulliad.

## Ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd

Mae ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** ("Deddf 2006"), fel y'i diwygiwyd, yn darparu i'r Cynulliad ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd. Mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan na ddylai'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn:

– i'r un grŵp gwleidyddol;

– i grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol; neu

– i grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan y naill na'r llall ohonynt rôl weithredol.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd un yn dod o'r grŵp neu'r grwpiau gwleidyddol sy'n llywodraethu a'r llall o'r wrthblaid. Gall y ddarpariaeth hon gael ei datgymhwyso os cymeradwyir hynny gan ddwy ran o dair o'r rhai a fydd yn pleidleisio. Ymhellach, os daw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn aelodau o'r un grŵp gwleidyddol yn ystod Cynulliad; yn aelodau o grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol; neu o grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan yr un ohonynt rôl weithredol, heb i'r naill neu'r

llall ymddiswyddo, yna caiff unrhyw Aelod wneud cynnig bod y Llywydd a’r Dirprwy Lywydd yn parhau yn eu swyddi.

Digwyddodd hyn yn y Trydydd Cynulliad, pan ddaeth y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Elis-Thomas AC a'r Fonesig Rosemary Butler AC yn Llywydd a'r Dirprwy Lywydd er eu bod yn perthyn i'r grwpiau gwleidyddol a ffurfiodd y llywodraeth glymblaid. Os na wneir cynnig o’r fath, neu os na chaiff y cynnig ei basio drwy bleidlais a gefnogir gan o leiaf ddwy ran o dair o’r rhai sy’n pleidleisio, rhaid i’r Llywydd a’r Dirprwy ymddiswyddo.

Ni chaiff y Llywydd na’r Dirprwy Lywydd bleidleisio yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn, p’un a fyddan nhw yn y gadair neu beidio, heblaw i ddefnyddio’r bleidlais fwrw.

Mae’r Llywydd yn dal ei swydd nes i Lywydd newydd gael ei ethol. Effaith hyn yw nad yw’r Llywydd yn peidio â dal ei swydd dim ond am fod y Cynulliad wedi’i ddiddymu cyn etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar y llaw arall, dim ond tan i’r Cynulliad gael ei ddiddymu y mae’r Dirprwy Lywydd yn dal ei swydd yntau. Serch hynny, mae’r naill a’r llall yn cael ymddiswyddo, a byddai’r naill a’r llall yn peidio â dal ei swydd wrth roi’r gorau i fod yn Aelod o’r Cynulliad heblaw wrth i’r Cynulliad gael ei ddiddymu (er enghraifft drwy ymddiswyddo fel Aelod o’r Cynulliad) neu drwy gael ei ddiswyddo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

## Cadeirio Comisiwn y Cynulliad

Mae Deddf 2006 yn darparu ar gyfer creu corff corfforaethol i’w alw’n “Gomisiwn y Cynulliad” a fydd yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod arall o’r Cynulliad (gweler yr Hysbysiad Hwylus Cyfansoddiadol ynghylch Comisiwn y Cynulliad).  Y Llywydd fydd yn cadeirio cyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad. Ni chaniateir i’r rôl hon gael ei dirprwyo i’r Dirprwy Lywydd. Os nad oes Llywydd mewn swydd, neu os na all y Llywydd weithredu, yna mater i Gomisiwn y Cynulliad yw penodi un arall o’i aelodau i lywyddu ei gyfarfodydd.

## Cadeirio'r Pwyllgor Busnes

Mae’r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer Pwyllgor Busnes a fydd yn cynnwys y Llywydd yn Gadeirydd ac un Aelod o bob grŵp gwleidyddol. Rhaid i’r trefniant hwn gael ei gymeradwyo gan fwyafrif o ddwy ran o dair o’r Cynulliad.

## Swyddogaethau Eraill y Llywydd o dan Ddeddf 2006

Mae swyddogaethau eraill y Llywydd o dan Ddeddf 2006, fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Cymru 2017,* yn cynnwys:

- Pennu dyddiad etholiad os bydd lle gwag mewn etholaeth. (adran 10 (4))
- Cynnig, ar gyfer cynnal pleidlais mewn etholiad y Cynulliad, ddyddiad nad yw'n fwy na mis yn gynt, na mis yn hwyrach, na'r dydd Iau cyntaf ym mis Mai. (adran 1))
- Derbyn hysbysiad bod lle gwag i aelod rhanbarthol wedi’i lenwi. (adran 11 (2))
- Derbyn hysbysiad bod Aelod wedi ymddiswyddo. (adran 15)
- Penderfynu ar gwestiynau sy’n codi o dan y Rheolau Sefydlog ynghylch y grŵp gwleidyddol y mae aelod yn perthyn iddo (os yw’n perthyn i un o gwbl) (adran 25 (4) (b))

- Derbyn hysbysiad bod cyfarwyddyd wedi'i roi gan un o Weinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol i aelod cyfredol neu gyn aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru (neu i berson a chanddo statws cyfatebol) nad oes angen i'r person roi tystiolaeth neu ddangos dogfennau i'r Cynulliad, ei bwyllgorau neu ei is-bwyllgorau. (adran 38 (5) (a))
- Gweinyddu'r llw neu'r cadarnhad ar gyfer unrhyw un sy'n rhoi tystiolaeth yn nhrafodion y Cynulliad. (adran 40 (1) (b))
- Dynodi person i weithredu fel Prif Weinidog Cymru (ar argymhelliad Gweinidogion Cymru) os bydd swydd Prif Weinidog Cymru'n wag, os na all Prif Weinidog Cymru weithredu neu os yw Prif Weinidog Cymru wedi peidio â bod yn Aelod o'r Cynulliad. (adran 46 (5))
- Argymell dewis y Cynulliad fel Prif Weinidog Cymru i'r Frenhines. (adran 47 (4)
- Datgan a yw darpariaethau Bil y Cynulliad, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. (adran 110 (3))

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y cyfansoddiad, cysylltwch ag Alys Thomas (alys.thomas@cynulliad.cymru).